# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Monitro Blynyddol




**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

1af o Ebrill 2022 - 31ain o Fawrth 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cefndir Safonau'r Gymraeg | 4 |
| Tudalen Wefan Safonau'r Gymraeg | 5 |
| Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfiad | 6 |
| Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg | 7 |
| Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol | 7 |
| Swyddi a Sgiliau Iaith Gymraeg | 8 |
| System E-recriwtio Newydd | 8 |
| Darparu Hyfforddiant Iaith Cymraeg | 9 |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru | 10 |
| Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - y 7fed o fis Rhagfyr 2022 | 11 |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan Gymraeg | 12 |
| Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol | 13-15 |
| Nifer y Staff sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg | 16 |
| Gwobr Iaith Gymraeg i Ddiffoddwyr Tân | 16 |
| Hyfforddiant a Chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg | 17 |
| Galwadau ffôn a gohebiaeth a Dderbyniwyd yn Gymraeg | 17 |
| Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg | 17 |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n falch o gyhoeddi ei Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2022-2023.  Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fonitro ei gynnydd yn erbyn y Safonau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf gan gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon uchel, a dilyn argymhellion Llywodraeth Cymru ynghylch gweithdrefnau COVID-19 ar gyfer gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Cyflwynwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfweliadau eto, gyda chyfarfodydd cyswllt fideo a fforymau yn parhau i gael eu defnyddio lle bo'n briodol.



# Cefndir Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol yn ogystal â gwneud darparu ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd yn ofynnol.

Mae Adran 44 o Fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno hysbysiad Cydymffurfio, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yn dilyn hyn cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, diben Safonau'r Gymraeg yw darparu:

- Eglurdeb o ran y Gymraeg i sefydliadau
- Eglurdeb i siaradwyr Cymraeg o ran pa wasanaethau y gellir disgwyl eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwell cysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg ac ansawdd gwell i ddefnyddwyr

**Safonau a gymhwysir at Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**

Mae cyfanswm o 150 o Safonau'r Gymraeg bellach ar waith o fewn y categorïau canlynol:

- **Darparu gwasanaethau** — 66 o safonau
- **Llunio polisïau** — 9 safon
- **Gweithredol** — 47 o safonau
- **Cadw cofnodion*** — 8 safon
- **Atodol*** — 20 o Safonau ar draws 4 categori

Cymhwysir y Safonau ar gyfer cadw cofnodion* a'r Safonau atodol* i helpu sefydliadau â'r broses o hunan-reoleiddio eu cydymffurfedd.

# Tudalen wefan Safonau'r Gymraeg

Mae gan y Gwasanaeth dudalen benodol ar gyfer safonau'r Gymraeg dan 'Pwy ydym ni' ar ddewislen gwefan y Gwasanaeth. Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth am gyflwyno Safonau'r Gymraeg ynghyd â dolenni i Hysbysiad Cydymffurfio, Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Awdurdod.

Darperir manylion i ddefnyddiwr y wefan yn esbonio sut i gofrestru cwyn neu ganmoliaeth mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau a rhoddir manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch ein Gwasanaeth a'r Gymraeg.

Dolen i dudalen Safonau'r Gymraeg:
https://www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/safonaur-gymraeg/

Gweithdrefn ar gyfer cwynion a chanmolaeth mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg:
https://www.decymru-tan.gov.uk/cysylltu-a-ni

# Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfedd

Cyfrifoldeb y Tîm Arwain Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaethau yw cydymffurfedd yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Safonau sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy ac mae'n ofynnol iddynt gynnal adolygiad cydymffurfio unwaith y flwyddyn. Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth hunan-reoleiddio ar gyfer y Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn golygu monitro ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn rhoi digon o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda ni neu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo â hunan-reoleiddio yw'r Safonau ar gyfer cadw cofnodion a'r Safonau atodol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gofnodi'n gyfnodol sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut rydym yn delio â'r cyhoedd. Mae cofnodi'r manylion hyn yn ein galluogi i ddangos sut rydym yn cynnal cydymffurfedd. Mae monitro cydymffurfedd â'r safonau hefyd yn golygu cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn y 30ain o Fedi bob blwyddyn.

Mae cynnwys yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Y modd y mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â gwahanol ddosbarthiadau o Safonau
- Y nifer o weithwyr â Sgiliau Iaith Gymraeg - Safon 147
- Y Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) o aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, anwytho, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 148
- Y nifer o swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categoreiddio fel rhai gyda Sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol, neu angen eu dysgu - Safon 151
- Y nifer o gwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad am bob dosbarth o Safonau - Safon 143

Datblygwyd system newydd gan y Gwasanaeth ar gyfer monitro ac adrodd ar gydymffurfiad â'r Safonau ymhellach yn ystod 2022-2023 gan y Tîm Cynllunio, Perfformiad a Risg. Mae'r tîm yn bwriadu darparu mynediad cyffredinol i'r system i bob gweithiwr yn ogystal â mynediad mwy penodol i'r sawl sy'n ymwneud â diweddaru'r system (perchnogion tasgau). Mae gwaith ar y system wedi cael ei ohirio yn ystod y misoedd diwethaf, achos newidiadau o ran aelodau allweddol o staff. Ar ôl cwblhau perchnogi tasgau, bydd y system yn cael ei phrofi a'i lansio yn ystod y cyfnod 2023 - 2024.

# Gwasanaethau cyfieithu Cymraeg

Mae gan y Gwasanaeth Dîm Cyfieithu Mewnol ei hun gyda dau aelod staff parhaol. Mae'r Tîm yn gweithredu fel rhan o'r Adran Cyfryngau a Chyfathrebiadau yn gyffredinol gan chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ddarparu cynnwys dwyieithog o'r safon uchaf i'r holl randdeiliaid.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm unwaith eto wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'r Gwasanaeth, gan gyfieithu ystod o ddeunyddiau'n brydlon, gan gynnwys dogfennau technegol cymhleth, cynlluniau busnes, adroddiadau, fideo a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Cynllun Strategol 2020-2030 (Ebrill 2023 – Diweddariad Blwyddyn Pedwar):
Cynllun Strategol 2020-2030 - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Fideo Cynllun Strategol:
Cynllun Strategol-Blwyddyn-4-Diweddariad

**Cyfanswm y geiriau o'r 1af o Ebrill 2022 - i'r 31ain o Fawrth 2023**

- **Cyfieithwyd: 86,201**
- **Prawf-ddarllenwyd: 107,932**

Mae ein Cyfieithwyr yn parhau i ddarparu cefnogaeth anffurfiol i aelodau staff unigol sy'n nodi eu bod yn ddysgwyr Cymraeg ac yn dymuno ymarfer eu sgiliau yn y gweithle. Mae'r cymorth hwn yn helpu cydweithwyr i feithrin hyder wrth siarad ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol

Mae'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau Integredig ac yn cynnwys Iaith fel maes i'w asesu. Cwblheir asesiadau ar gyfer yr holl bolisïau a gweithdrefnau gan gynnwys dogfennau hŷn sy'n cael eu diwygio. Mae ein polisïau Corfforaethol sy'n cadarnhau'r holl weithgareddau darparu a chefnogi gwasanaethau wedi cael eu llunio ar gyfer y cyhoedd. Cyhoeddir y polisïau ar wefan y Gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac maent ar gael yma: www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydyn-ni/polisi-corfforaethol

# Swyddi a Sgiliau Iaith Cymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn hysbysebu swyddi gwag trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r rhain yn ymddangos ar dudalen 'Swyddi Gwag Diweddaraf' ei wefan. Mae pob swydd o fewn y Gwasanaeth yn cael eu categoreiddio yn swyddi Cymraeg Hanfodol neu Gymraeg Dymunol. Ar gyfer y swyddi hynny sydd o fewn y categori Hanfodol, asesir ymgeiswyr ar eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r prosesau Llunio Rhestr Fer a Dethol.

**Swyddi Newydd a Swyddi Gwag 1af o Ebrill 2022 - 31ain o Fawrth 2023**

- **Cymraeg yn hanfodol: 2**
- **Cymraeg yn ddymunol: 42**

# Y System E-Recriwtio

Ers iddi gael ei lansio yn 2021, mae'r System E-Recriwtio wedi cael ei defnyddio ar gyfer ystod o swyddi gwag amrywiol yn ogystal â phrosesau recriwtio. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o Ymgyrchoedd Recriwtio ar raddfa fawr i Ddiffoddwyr Tân a staff yr Ystafell Reoli. Mae System E-Recriwtio'r Gwasanaeth yn rhoi'r opsiwn sy'n caniatáu i ddefnyddiwr lywio ei dudalennau a chyflwyno cais trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ffurflen ar-lein, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am statws y Gymraeg sydd gyda nhw, e.e, nodi siaradwr neu ddysgwr Cymraeg a lefel gyffredinol eu Cymraeg. Mae'r ffurflen hefyd yn rhoi opsiwn i dderbyn gohebiaeth bellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r system newydd eisoes wedi gwella'r profiad ymgeisio am swydd ar gyfer ein defnyddwyr terfynol.

# Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod manteision Dysgu Cymraeg ac yn ceisio creu amgylchedd gwaith lle bydd dwyieithrwydd yn parhau i dyfu. Mae ein gweithwyr yn cael eu gwahodd i holi am Hyfforddiant Gymraeg trwy law hysbyseb ar ein Mewnrwyd. Yn ystod y cyfnod 2022-2023, holodd un ar bymtheg o weithwyr am Ddysgu Cymraeg. Rhoddwyd cyngor iddynt ar sut i gyrchu Dysgu Cymraeg a sut i wneud cais i Gronfa Dysgu Ychwanegol y Gwasanaeth i dalu am eu cwrs dewisol. Gall unigolion gael mynediad at y gronfa unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu ychwanegol.

# Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru yn fewnol ar gyfer ei weithwyr ac yn allanol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ill dau. Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2022 – Mawrth 2023 fe wnaethom ddathlu a rhoi cyhoeddusrwydd i dri dyddiad pwysig gan ddefnyddio e-byst byd-eang, erthyglau mewnrwyd, posteri a'r cyfryngau cymdeithasol:

- Y 15fed o Hydref 2022 - Diwrnod Shwmae
- Y 25ain o Ionawr 2023 - Dydd Santes Dwynwen
- Y 1af o Fawrth 2023 - Gŵyl Dewi Sant









# Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - 7fed o fis Ragfyr

Ar y 7fed o Ragfyr 2022, cymerodd y Gwasanaeth ran yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg i hyrwyddo'r Gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan Sefydliadau Cyhoeddus yng Nghymru. Pennwyd y dyddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg i goffau'r diwrnod yn 2010 pan ddaeth Deddfwriaeth am yr Iaith Gymraeg i rym gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn gyfle i hysbysu pobl am eu hawliau, wrth dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyhoeddodd y Gwasanaeth restr o'i Hawliau sy'n cael eu harddangos yn barhaol yn Nerbynfa ein Pencadlys.

Gall defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr gyrchu'r dudalen Hawliau Iaith Gymraeg ar ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen isod:

https://www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/safonaur-gymraeg/hawliaur-gymraeg/

Gyda ni mae hawl gyda chi i gael y canlynol:

1. Dogfennau yn Gymraeg
2. Gwefannau yn Gymraeg
3. Gwneud cais am swydd yn Gymraeg
4. Llythyrau ac e-bost yn Gymraeg
5. Ffurflenni yn Gymraeg
6. Negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
7. Arwyddion yn Gymraeg
8. Defnyddio'r Gymraeg mewn Dderbynfa
9. Defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn

# Nifer yr ymweliadau â'r wefan Gymraeg

Mae gwefan allanol y Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac mae'n rhoi cyfle i bob ymwelydd fod yn weithredol wrth gyrchu ei chynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cofnodir perfformiad y fersiwn Gymraeg o'r safle yn ystod Ebrill 2022 - Mawrth 2023 o'i gymharu â'r fersiwn Saesneg yn y tabl isod:

| Meini prawf | Y Wefan Gymraeg | | Y Wefan Saesneg | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFNOD ADRODD** | **2022-2023** | **2021-2022** | **2022-2023** | **2021-2022** |
| **YMWELIADAU UNIGRYW** | **7,420** | **(8,832)*** | **544,281** | **(553,905)*** |
| **DEFNYDDWYR** | **3,948** | **(5,064)*** | **189,929** | **(161,622)*** |
| **AMSER CYFARTALOG A DREULIWYD AR Y WEFAN (FESUL SESIWN)** | **1** munud **16** eiliad | (**1** munud )* | **1** munud **36** eiliad | (**1** munud **53** eiliad)* |
| **TUDALENNAU MWYAF POBLOGAIDD** | (Swyddi gwag diweddaraf) | (DTDG 2022)* | Swyddi Gwag Diweddaraf | (Swyddi Gwag Diweddaraf)* |

*yn dangos data cymharol ar gyfer 2021-2022

# Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod ei holl ymgyrchoedd hyrwyddo a diogelwch drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol yr un mor hygyrch i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg ill dau. Cyflawnwyd hyn drwy greu sianeli ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, gyda chyfrif Trydar pwrpasol Cymraeg @TanDeCymru yn ogystal â thudalen bwrpasol Gymraeg ar Facebook. Gweler isod ddata perfformiad ar gyfer pob sianel Ebrill 2022 – Mawrth 2023.

## Twitter

| Meini Prawf | @TanDeCymru | | @SWFireandRescue | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFNOD ADRODD** | **2022-2023** | **2021-2022** | **2022-2023** | **2021-2022** |
| **DILYNWYR** (EBRILL - MAWRTH) | **241** | **(219)*** | **37,367** | **(35,440)*** |
| **NEGESUON TRYDAR** | **1,664** | **(1,337)*** | **2,045** | **(1,717)*** |
| **ARWYDDION HOFFI** | **653** | **(330)*** | **13,468** | **(17,587)*** |

*yn dangos data cymharol ar gyfer 2021-2022

# Facebook

| Meini Prawf | Tudalen Gymraeg | | Tudalen Saesneg | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFNOD ADRODD** | **2022-2023** | **2021-2022** | **2022-2023** | **2021-2022** |
| **CYNNYDD O RAN HOFFI AR GYFER POB CYFNOD ADRODD** | 401 i 424 | (383 i 401)* | 37,578 i 40,819 | (35,309 i 38,236)* |
| **ARWYDDION HOFFI NEWYDD** (EBRILL - MEHEFIN) | 5 | (0)* | 1,202 | (0)* |
| **ARWYDDION HOFFI NEWYDD** (GORFFENNAF - MEDI) | 9 | (0)* | 814 | (0)* |
| **ARWYDDION HOFFI NEWYDD** (HYDREF - RHAGFYR) | 2 | (5)* | 605 | (180)* |
| **ARWYDDION HOFFI NEWYDD** (IONAWR - MAWRTH) | 7 | (13)* | 620 | (835)* |

*yn dangos data cymharol ar gyfer 2021-2022

# Instagram

| Meini Prawf | Tudalen ddwyieithog (o'r 31ain o Fawrth 2023) |
|---|---|
| **DILYNWYR** | **8,222** |
| **NEGESEUON HOFFI** | **21,345** |
| **NEGESEUON** | **201** |

# Nifer y staff sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae Porth AD y Gwasanaeth yn gallu cofnodi sgiliau iaith. Gofynnir i bob gweithiwr asesu lefel eu sgiliau o 0 - 5 yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn darllen, siarad, deall ac iaith ysgrifenedig a nodi ai Cymraeg neu Saesneg yw eu dewis iaith. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at gynyddu nifer yr hunanasesiadau a gwblhawyd gyda chyhoeddiadau ar y safle Mewnrwyd, e-byst byd-eang a dogfennau canllaw. Tynnwyd data o system CoreHR ym mis Mawrth 2023 a ddatgelodd fod 86 o weithwyr wedi nodi bod ganddynt Sgiliau Iaith Gymraeg Lefel 1 neu uwch mewn un hyfedredd neu fwy.

**2022-2023**

| Disgrifiad Hyfedredd Iaith | Darllen | Ar lafar | Deall | Ysgrifenedig |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 31 | 40 | 33 | 25 |
| Lefel 2 | 11 | 14 | 11 | 13 |
| Lefel 3 | 12 | 10 | 5 | 12 |
| Lefel 4 | 8 | 7 | 8 | 3 |
| Lefel 5 | 11 | 8 | 11 | 7 |
| **CYFANSWM** | **73** | **79** | **68** | **60** |

# Gwobr Iaith Gymraeg i Ddiffoddwyr Tân

Mae'n ofynnol i'r holl Ddiffoddwyr Tân Llawn Amser newydd a gyflogir gan y Gwasanaeth gofrestru ar gyfer cymhwyster Prentisiaeth a hwylusir gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae rhan o'r cymhwyster yn cynnwys Cwrs Cyffredinol Prentis-iaith gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cwrs chwe modiwl yw Prentis-iaith sy'n ymdrin ag Iaith a Diwylliant Cymraeg.

Mae'r cwrs yn rhyngweithiol gan gynnwys system hunan-farcio awtomataidd sy'n galluogi dysgwyr i weithio'n unigol ar gyflymder y maent yn gyfforddus ag ef. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u harwain drwy'r modiwlau, gan gynnwys elfen eiriol i helpu'r dysgwr i ymarfer ynganu ymadroddion Cymraeg. Rhoddir tystysgrif i bob dysgwr ar ôl cwblhau'r cwrs. Yn ystod mis Medi 2022 cofrestrodd dau ar bymtheg o Ddiffoddwyr Tân Llawn Amser ar Gwrs Cyffredinol Prentis-iaith a hyd yn hyn, mae pedwar ohonynt wedi cwblhau pob un o'r modiwlau.

# Hyfforddiant a chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae dau brif bwynt cyswllt ar gyfer hyfforddi staff, sef y Tîm Dysgu a Datblygu ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd. Ni chynhaliwyd unrhyw gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn hon ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar eu cyfer yn ystod 2022-2023.

# Galwadau ffôn a gohebiaethau a dderbyniwyd yn Gymraeg

**Galwadau ffôn**
Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 derbyniodd y Gwasanaeth 21 o alwadau ffôn Cymraeg i'w brif switsfwrdd yn y Pencadlys.
Derbyniwyd 26 o alwadau pellach yn gofyn am wiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref.

**Gohebiaethau**
Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 derbyniodd y Gwasanaeth 19 e-bost. Derbyniwyd 9 e-bost arall yn gofyn am wiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2022 - Mawrth 2023 ni dderbyniwyd gohebiaeth gan y Gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, fodd bynnag mae'r Adran Cefnogi Busnes yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau allanol eraill.

# Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg

Mae'r adran Cymorth Busnes yn cofnodi'r holl gwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth drwy'r dudalen 'Cysylltwch â Ni' a'r adran honno sy'n ymdrin â'r cwynion hynny i gychwyn. Yn dilyn hynny cyfeirir unrhyw gwynion at yr adran berthnasol. Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw gwyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg 2022-2023.




Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n croesawu adborth am y wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn a'r ffordd y mae'n cael ei chyflwyno.
Cysylltwch â ni drwy ffonio: 01443 232000 neu drwy law e-bost: Cymraeg@decymru-tan.gov.uk

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan yr Adran Gyfryngau a Chyfathrebiadau 2023 - MC000027